CBAC WJEC

Diwygwyd Hydref 2011

TGAU

Manyleb i'w haddysgu o 2010

Cymraeg Ail Iaith

Cynnwys

TGAU CBAC mewn Cymraeg Ail Iaith
(Cwrs Llawn a Byr)

I'w addysgu o 2010
Cwrs Byr i'w ddyfarnu o 2011
Cwrs Llawn i'w ddyfarnu o 2012

	Tudalen
Crynodeb o'r Asesiad	**2**
Rhagarweiniad	**3**
Cynnwys y Fanyleb	**6**
Cynllun Asesu	**7**
Dyfarnu ac Adrodd	**14**
Gweinyddu'r Asesiad dan Reolaeth	**15**
Disgrifiadau o'r Graddau	**19**
Y Cwricwlwm Ehangach	**21**
Atodiad Iaith	**23**

Cymraeg Ail Iaith

CRYNODEB O'R ASESIAD

Disgwylir i ymgeiswyr y Cwrs Byr gyflawni Unedau 1 a 2.

Disgwylir i ymgeiswyr y Cwrs Llawn gyflawni Unedau 1, 2, 3 a 4.

UNED 1 Papur Ysgrifenedig: 1 awr (25%) (100 marc) Haen Uwch a Sylfaenol (GMU: 50)
4 cwestiwn – 2 ysgrifennu (10%) 2 ddarllen (15%)
UNED 2 Asesiad dan Reolaeth (25%) (Dim Haen) (100 marc) (GMU: 50)
Llafaredd 20% Tasg 1 – Cyflwyniad unigol (10%) Tasg 2 – Sgwrs Sefyllfa (10%) – Tasg pâr/grŵp Ysgrifennu – (5%) Gwaith ysgrifennu yn deillio o'r sgwrs sefyllfa.
UNED 3 Arholiad Llafar: 10 munud (25%) (50 marc) **Haen Uwch a Sylfaenol (GMU: 50) [CWRS LLAWN YN UNIG]**
Llafaredd 20% Arholiad llafar pâr/ grŵp. Darllen 5% Trafod deunydd darllen fel symbyliad i'r arholiad llafar.
UNED 4 Papur Ysgrifenedig: 1 awr (25%) (100 marc) Haen Uwch a Sylfaenol (GMU: 50) [CWRS LLAWN YN UNIG]
4 cwestiwn – 2 ysgrifennu (15%) 2 ddarllen (10%)

CYFLEOEDD ASESU

	Cod Cofrestru		Mehefin 2011	Mehefin 2012 a phob blwyddyn wedi hynny
	Pwnc	**Opsiwn**		
Uned 1	4551	01 (S)	✓	✓
	4551	02 (U)		
Uned 2	4552		✓	✓
Uned 3	4553	01 (S)		✓
	4553	02 (U)		
Uned 4	4554	01 (S)		✓
	4554	02 (U)		
Dyfarniad Pwnc: Cwrs Llawn	4550	SA		✓
Dyfarniad Pwnc: Cwrs Byr	4559	SC	✓	✓

Rhif Achredu'r Cymhwyster Cwrs Byr: 500/7408/08
Rhif Achredu'r Cymhwyster Cwrs Llawn: 500/7404/0

CYMRAEG AIL IAITH – CWRS LLAWN A BYR

1 *RHAGARWEINIAD*

1.1 Rhesymeg

Mae'r manylebau hyn yn darparu profiadau sy'n rhoi cyfle i bob ymgeisydd ymgyrraedd at ei botensial llawn yn y Gymraeg yn ôl ei allu a'i angen. Anelir at sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y Gymru gyfoes gan feithrin ymagweddiad cadarnhaol tuag at y Gymraeg a'i diwylliant. Datblygir sgiliau ymgeiswyr i ddefnyddio'r iaith at ddibenion cyfathrebu effeithiol a phwrpasol yn eu bywyd bob dydd a/neu mewn sefyllfaoedd galwedigaethol.

1.2 Nodau a Chanlyniadau Dysgu

Dylai dilyn cwrs TGAU Cymraeg Ail Iaith annog ymgeiswyr i:

- ddatblygu eu diddordeb yn y Gymraeg a brwdfrydedd dros yr iaith a chael eu hysbrydoli, eu cyffwrdd a'u newid trwy astudio cwrs astudio eang, cydlynol, boddhaol a gwerthchweil
- datblygu hyder wrth gyfathrebu'n effeithiol yn yr iaith
- datblygu sgiliau hanfodol gan ymgymryd â thasgau ymarferol fydd yn diwallu anghenion ymgeiswyr, cyflogwyr ac addysg bellach
- datblygu sgiliau ymgeiswyr i ddefnyddio'r iaith yn ymarferol er mwyn cyfathrebu'n effeithiol, yn ddefnyddiol ac yn briodol yng nghymdeithas ddwyieithog yr unfed ganrif ar hugain
- datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer astudio pellach, gan gynnwys astudio Cymraeg Ail Iaith ar Lefel 3 y fframwaith cymwysterau.

1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant

Er nad oes anghenion penodol parthed dysgu blaenorol, mae'r manylebau hyn yn adeiladu ar y Rhaglenni Astudio ar gyfer Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 1-3.

Cynlluniwyd y manylebau yn fwyaf arbennig ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi arddangos y rhan fwyaf o nodweddion cyflawniad Lefel 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 3.

Gall unrhyw ymgeiswyr beth bynnag eu rhyw neu gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol astudio'r manylebau hyn.

Ar gyfer mwyafrif yr ymgeiswyr, mae'r manylebau hyn yn adeiladu ar y Rhaglenni Astudio ar gyfer Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 1-3 a'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen yng Nghyfnod Allweddol 3. Bydd yr arholiadau yn sail gadarn i'r ymgeiswyr hynny sydd yn dymuno parhau â'u hastudiaethau yn y Gymraeg trwy ddilyn cyrsiau Tystysgrif Uwch Gyfrannol/Uwch mewn Cymraeg Ail Iaith neu'r Dystysgrif Uwch Gyfrannol mewn Cymhwyso Cymraeg Ail Iaith. Mae'r manylebau hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer byd gwaith a chyfleoedd dysgu pellach o fewn cyflogaeth.

1.4 Cydraddoldeb ac Asesiad Teg

Yn aml yn y TGAU bydd gofyn asesu amrediad eang o gymwyseddau. Gwneir hyn oherwydd eu bod yn gymwysterau cyffredinol a'u bod, felly, yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer amrywiol yrfaoedd a chyrsiau ar lefel uwch.

Adolygwyd y meini prawf cymhwyster a phwnc TGAU er mwyn ystyried a fyddai unrhyw un o'r cymwyseddau oedd eu hangen yn y pwnc yn eithrio ymgeiswyr anabl o bosib. Mewn achosion o'r fath, adolygwyd y sefyllfa eto i wneud yn siŵr bod cymwyseddau o'r fath ond yn cael eu cynnwys pan oedd hynny'n hanfodol i'r pwnc. Trafodwyd casgliadau'r broses hon gyda grwpiau'r anabl a phobl anabl eu hunain.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd. O'r herwydd, ychydig iawn o ymgeiswyr fydd yn cael eu hatal yn llwyr rhag sefyll unrhyw ran o'r asesiad. Mae gwybodaeth ar addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau *Rheoliadau ac Arweiniad yn Ymwneud ag Ymgeiswyr sy'n gymwys am Addasiadau mewn Arholiadau.* Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk) neu yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk).

Mae'n bosibl y ceir ymgeiswyr na fydd rhan sylweddol o'r asesiad o fewn eu cyrraedd o hyd, hyd yn oed ar ôl archwilio pob posibilrwydd trwy addasiadau rhesymol, ond y bydd modd iddynt dderbyn dyfarniad. Byddent yn cael gradd wedi'i seilio ar y rhannau o'r asesiad a gymerwyd ganddynt a nodir ar eu tystysgrif nad yw'r holl gymwyseddau wedi'u cyflawni. Cedwir hyn dan ystyriaeth ac efallai y caiff ei newid yn y dyfodol.

1.5 Gorgyffwrdd a Chyfyngiadau ar Gofrestru

Mae'r arholiadau hyn ar gael ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi dilyn Rhaglen Astudio Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae'r arholiadau ar gael yn ogystal ar gyfer ymgeiswyr a ddechreuodd astudio Cymraeg ar ôl Cyfnod Allweddol 3. Nid yw'r arholiadau ar gael ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi dilyn rhaglen Astudio Cymraeg trwy gydol Cyfnod Allweddol 3.

1.6 Codau Dosbarthu

Ar gyfer pob manyleb, rhoddir cod dosbarthu cenedlaethol sy'n nodi i ba faes pwnc y mae'n perthyn. Y cod dosbarthu ar gyfer y fanyleb hon yw 4550.

Dylai canolfannau nodi, yn achos yr ymgeiswyr hynny sy'n cofrestru am fwy nag un cymhwyster TGAU gyda'r un cod dosbarthu, mai un radd yn unig (yr uchaf) a gyfrifir at ddibenion y Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau.

Efallai yr hoffai canolfannau gynghori ymgeiswyr, os byddant yn cymryd dwy fanyleb gyda'r un cod dosbarthu, ei bod hi'n debygol iawn y bydd ysgolion a cholegau o'r farn eu bod wedi ennill un yn unig o'r ddau gymhwyster TGAU. Mae'n bosibl y byddant yn meddwl hyn hefyd os bydd ymgeiswyr yn cymryd dwy fanyleb TGAU â gwahanol godau dosbarth ond cryn orgyffwrdd o ran cynnwys. Os oes gan ymgeiswyr unrhyw amheuon am eu cyfuniadau pwnc, dylent gysylltu â'r sefydliad y dymunant fynd iddo cyn dechrau ar eu rhaglenni.

2 CYNNWYS

Ymgeiswyr Cwrs Byr

Disgwylir i ymgeiswyr astudio Cyd-destun A ar gyfer Unedau 1 a 2.

Ymgeiswyr Cwrs Llawn

Disgwylir i ymgeiswyr astudio Cyd-destun A ar gyfer Unedau 1 a 2 a Chyd-destun B ar gyfer Unedau 3 a 4.

CYD-DESTUN A
Gwyliau
Chwaraeon
Ffasiwn/ siopa
Sêr o Gymru
Sinema/ byd y ffilmiau
Canu pop
Gwaith elusennol/ rhan-amser
Ardal
Diwylliant Cymru
Cymru
Fi fy hunan
Digwyddiad arbennig

CYD-DESTUN B
Amser hamdden
Alcohol, cyffuriau ac ysmygu
Yr amgylchedd
Cadw'n iach a heini
Teulu a ffrindiau
Y cartref
Penwythnos
Y cyfryngau
Technoleg
Dathlu
Profiadau'r ysgol

3 ASESU

3.1 Cynllun Asesu

Asesir y TGAU Cymraeg Ail Iaith mewn haenau, h.y. targedir cydrannau/unedau a asesir yn allanol at yr ystodau graddau A*-D (Haen Uwch) ac C-G (Haen Sylfaenol), tra bod asesiadau dan reolaeth yn darparu ar gyfer yr ystod gallu lawn. Bydd cwestiynau a thasgau'n cael eu cynllunio er mwyn galluogi'r ymgeiswyr i ddangos yr hyn y maent yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud.

Gall ymgeisydd gofrestru am un haen yn unig mewn unrhyw gyfres arholiadau:

Haen	Graddau sydd ar gael
Uwch	A*, A, B, C, D
Sylfaenol	C, D, E, F, G

Dyfernir Gradd E i ymgeiswyr sydd prin yn methu ag ennill Gradd D ar yr Haen Uwch.

Gall ymgeisydd newid haen os yw'n ailsefyll unrhyw unedau a asesir yn allanol.

Bydd y cynllun asesu'n cynnwys:

Asesiad Allanol - Asesiad Terfynol (75%)
Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu

Bydd arholiad Uned 1 yn seiliedig ar gyd-destun A ac Unedau 3 a 4 yn seiliedig ar gyd-destun B. Gosodir papurau ar wahân ar gyfer ymgeiswyr yr Haen Sylfaenol a'r Haen Uwch.

Disgwylir i ymgeiswyr y Cwrs Byr gyflawni Uned 1 yn unig.

Disgwylir i ymgeiswyr y Cwrs Llawn gyflawni Unedau 1, 3 a 4

UNED 1 **Arholiad darllen ac ysgrifennu (25%)** (1 awr) **Darllen 15%** **Ysgrifennu 10%**	 2 gwestiwn 2 gwestiwn
UNED 3 **Arholiad llafar** **Llafaredd (20%) Darllen (5%)** **Llafaredd 20%** **Haen Sylfaenol** **Haen Uwch** **Darllen 5%** (symbyliad i'r dasg lafar)	1 dasg pâr/grŵp Gwaith Pâr, 4 – 5 munud Gwaith Grŵp, 6 – 7 munud Gwaith Pâr, 6 – 7 munud Gwaith Grŵp, 8 – 10 munud
UNED 4 **Arholiad darllen ac ysgrifennu (25%)** (1 awr) **Darllen 10%** **Ysgrifennu 15%**	 2 gwestiwn 2 gwestiwn

UNEDAU 1 a 4

Arholiad Ysgrifenedig - Darllen ac Ysgrifennu
Uned 1 – 1 awr (25%)
Uned 4 – 1 awr (25%) [Cwrs Llawn yn unig.]

Bydd y papurau Darllen ac Ysgrifennu yn cynnwys 1 cwestiwn a fydd yn gorgyffwrdd rhwng y ddwy haen.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

Gosodir dau bapur arholiad yn Unedau 1 a 4: haen sylfaenol ar gyfer graddau C - G a haen uwch ar gyfer graddau A* - D. Asesir y gwaith yn allanol.

Darllen (25%)

Disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu deall cynnwys darnau o natur wahanol gan ddewis yr hyn sy'n berthnasol at ddibenion penodol. Gosodir **2** gwestiwn darllen gydag un cwestiwn gorgyffwrdd yn gyffredin i'r ddwy haen.

Asesir iaith yr ymgeiswyr wrth iddynt ymateb i'r darnau darllen. Dyfernir 20% o farciau ymateb i ddarllen am ansawdd iaith yr ymgeiswyr.

Yn ystod y cwrs dylid rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr ddarllen ac ymateb i ystod o ddeunyddiau gwahanol gan gynnwys peth deunydd dilys, e.e.

- llythyrau
- negeseuon e-bost
- memoranda
- llyfrau gwybodaeth
- stori/nofel ar gyfer dysgwyr
- cerddi
- ffurflenni
- cofnodion
- naratifau
- nodiadau
- diagramau
- cyfarwyddyd
- adroddiadau

Ysgrifennu (25%)

Disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu gallu i ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau ac at wahanol ddibenion. Gosodir **2** gwestiwn ysgrifennu gydag un cwestiwn gorgyffwrdd yn gyffredin i'r ddwy haen.

Disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu ysgrifennu'r Gymraeg yn effeithiol, gan ddefnyddio ystod o eirfa a phatrymau iaith sy'n addas i'r pwrpas a'r gynulleidfa. **Dyfernir hanner y marciau am y cynnwys a hanner am ansawdd iaith a mynegiant.**

Yn ystod y cwrs dylid rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr fynegi profiadau personol a dychmygus, cyflwyno gwybodaeth a llunio darnau cofnodol, ffeithiol amrywiol, mynegi barn ac ysgrifennu'n ffurfiol ac yn anffurfiol. Dylid rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau, e.e.

- datganiadau
- ffurflenni
- llythyr personol
- llythyr ffurfiol
- llythyr mynegi barn/cwyno
- negeseuon
- negeseuon e-bost
- memoranda
- portread
- adroddiadau
- hanesyn
- erthygl
- adolygiad
- cyfarwyddyd
- ysgrifennu creadigol e.e. stori.

UNED 3: **ARHOLIAD LLAFAR [Cwrs Llawn yn unig.]**
Llafaredd (20%) Darllen (5%)

Dylai'r disgyblion fod wedi cael digon o gyfleoedd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr arholiad i ymarfer eu sgiliau llafar mewn grwpiau. Bydd manteisio ar gyfleoedd i gyflwyno a chyfnewid gwybodaeth, i wrando ar ac ymateb i gyfraniadau gan eraill, i fynegi barn am bynciau amrywiol a chefnogi'r farn â thystiolaeth/rhesymau, i gytuno ac anghytuno ac i gydweithio ag eraill mewn grwpiau yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion, yn datblygu eu sgiliau llafar, ac yn eu paratoi ar gyfer yr arholiad allanol.

Yn yr arholiad llafar disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp gan:

- gyflwyno a chyfnewid gwybodaeth
- gwrando ar ac ymateb i gyfraniadau gan eraill
- mynegi barn am bynciau amrywiol a chefnogi'r farn â thystiolaeth/rhesymau
- cytuno ac anghytuno
- cydweithio ag eraill.

Hefyd, disgwylir i ymgeiswyr ymateb i ddarnau darllen symbylus.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

Asesu

Asesir iaith a mynegiant yr ymgeiswyr yn y dasg lafar a darllen. Dyfernir hanner y marciau am gynnwys eu cyfraniadau a hanner y marciau am ansawdd iaith a mynegiant.

Asesir iaith a mynegiant yr ymgeiswyr yn y dasg ddarllen. Dyfernir 20% o farciau ymateb i ddarllen am ansawdd iaith yr ymgeiswyr.

Ceir manylion llawn am yr arholiad llafar gan gynnwys dyddiadau, argymhellion ynglŷn â pharatoi ymgeiswyr, trefn ar ddiwrnod yr arholiad, recordio, safoni sampl o grwpiau ac asesu yn y llyfryn *Arholiadau Llafar Cymraeg* a gyhoeddir yn flynyddol.

Gweinyddu'r arholiadau llafar a darllen

- Asesir ymgeiswyr drwy arholiad ffurfiol a gynhelir **fel arfer** wedi'r Pasg.
- Neilltuir dau ddiwrnod penodol ar gyfer yr arholiadau llafar.
- Gosodir y tasgau yn allanol gan CBAC. Bydd papurau'r arholiad llafar yn cyrraedd canolfannau mewn da bryd i weinyddu'r arholiad ar y dyddiadau penodedig. Rhydd y dasg pâr/grŵp gyfle i'r ymgeiswyr gyflwyno a chyfnewid gwybodaeth ac i fynegi a chefnogi barn.
- Ni chaniateir geiriaduron yn yr asesiad llafar allanol.
- Caniateir 10 munud i'r ymgeiswyr astudio ac i drafod un o'r testunau mewn pâr neu mewn grŵp o dri. Gall yr ymgeiswyr wneud nodiadau yn ystod y cyfnod yma, ond ni chaniateir defnyddio geiriaduron nac unrhyw lyfrau eraill wrth baratoi.
- Rhaid arholi pob ymgeisydd ac ar sail adnabyddiaeth athrawon o'r ymgeiswyr dylid ffurfio grwpiau nad ydynt yn cynnwys mwy na 3 ymgeisydd. Dylai athrawon sicrhau, hyd eithaf eu gallu, fod aelodau'r pâr/grŵp, os nad yn cynrychioli'n union yr un marciau, o leiaf yn cynrychioli'r un radd.

Bydd dewis o sbardunau llafar ar gyfer yr arholiad hwn. Rhoddir dewis o dair tasg ar yr Haen Sylfaenol a dewis o dair tasg ar yr Haen Uwch. Darperir papur arholiad gwahanol ar gyfer y ddau ddiwrnod.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr yr Haen Sylfaenol a'r Haen Uwch drafod pwnc gan ddilyn cyfres o gwestiynau symbylus yn ogystal ag ymateb i ddarnau darllen. Dylid dewis y sbardun a'r dasg fwyaf addas ar gyfer pob pâr/grŵp cyn dechrau'r arholiad a chaniatáu tua 10 munud i bob pâr/grŵp baratoi (hynny yw yr amser y mae'n cymryd i'r pâr/grŵp blaenorol gwblhau eu tasg nhw).

Tasg	Hyd y dasg
Haen Sylfaenol Llafar – Pâr **neu** Llafar – Grŵp	 4 – 5 munud 6 – 7 munud
Haen Uwch Llafar – Pâr **neu** Llafar – Grŵp	 6 – 7 munud 8 – 10 munud

- Dylid dechrau'r arholiad pâr/grŵp trwy nodi enw a rhif y ganolfan a gofyn i'r ymgeiswyr gyflwyno eu hunain.
- Dylid gofyn i'r ymgeiswyr drafod y pwnc a roddwyd iddynt ar gyfer y dasg pâr/grŵp gan fynegi eu barn bersonol, a dylid caniatáu iddynt wneud hynny'n weddol annibynnol er y gellir ymyrryd ar adegau er mwyn symud y drafodaeth yn ei blaen. (Gweler Swyddogaeth yr Arholwr).
- Ar ddiwrnod yr arholiad rhaid nodi marc allan o **35 (Haen Sylfaenol)** a **50 (Haen Uwch)** ar gyfer pob ymgeisydd.
- Dylid sicrhau bod enw a rhif y ganolfan, yn ogystal ag enwau a marciau'r ymgeiswyr, yn glir ar y tâp.

Swyddogaeth yr Arholwr (athro/athrawes)

Yn ystod y **dasg pâr/grŵp** dylai'r arholwr (athro/athrawes) **roi cyfle i'r pâr/grŵp drafod yn weddol annibynnol.** Os bydd angen dylai'r arholwr:

- sbarduno trafodaeth;
- hybu newid cyfeiriad y drafodaeth;
- gofyn i ymgeisydd gynnig tystiolaeth i gadarnhau syniadau neu ddatblygu dadl;
- sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael cyfle i ymateb.

Safoni

- Yn ystod y cyfnod arholi, gofynnir i bob canolfan recordio arholiadau pob pâr/grŵp, marcio'r gwaith a safoni marciau'r ysgol, cyn anfon sampl ohonynt at safonwr a benodir gan CBAC.
- Rhaid i'r sampl gynnwys enghraifft o grwpiau yn gweithio ar bob gradd (A* - G) sy'n cynrychioli pob dosbarth dysgu. Lle nad yw hyn yn bosib, gofynnir am isafswm o **5 pâr/grŵp** sy'n cynrychioli graddau gwahanol ar draws yr holl ddosbarthiadau dysgu yn y flwyddyn.
- Dylid nodi'r marciau a roddwyd i bob ymgeisydd a gynhwysir yn y sampl ar y taflenni marciau priodol.

Cofnodi marciau

- Cofnodir marciau'r holl ymgeiswyr ar ffurflenni cyfrifiadurol "C" a gwblheir fel arfer ddiwedd Ebrill/dechrau Mai.

UNED 2

Asesiad dan Reolaeth (25%)
Llafaredd ac Ysgrifennu

Llafaredd (20%)

Ysgrifennu (5%)

Disgwylir i ymgeiswyr y Cwrs Byr a'r Cwrs Llawn gyflawni Uned 2.

Llafaredd (20%) **Ysgrifennu (5%)**	
Llafaredd 20% **Tasg 1 – cyflwyniad unigol (10%)** **Tasg 2 – sgwrs sefyllfa (10%) – Tasg pâr/ grŵp** **Bydd y dasg yn cael ei gweinyddu gan yr athro/ athrawes ac anfonir sampl i CBAC i'w safoni.**	2 dasg Hyd y dasg: 2 – 5 munud Hyd y dasg: Gwaith pâr. 4 – 7 munud Gwaith grŵp. 6 – 10 munud
Ysgrifennu 5% (gwaith yn deillio o'r sgwrs sefyllfa). **Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr gwblhau'r dasg ysgrifennu dan reolaeth yn yr ystafell ddosbarth o fewn 1 awr. Mae'n bosibl defnyddio tasg o'r banc tasgau sy'n cael ei gynnig gan CBAC, neu gellir addasu'r dasg gan yr athro/ athrawes.**	1 dasg Hyd y dasg: Rhwng 100 – 250 o eiriau

Llafaredd
Tasg 1: cyflwyniad unigol

Bydd disgwyl i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth ar destun sy'n codi o Gyd-destun A.

e.e. hoff gêm/sbort/chwaraewr, chwaraeon, datblygiad sbort arbennig/hanes tîm arbennig.

Tasg 2: sgwrs sefyllfa
Bydd disgwyl i ymgeiswyr ymdrin â sefyllfa o Gyd-destun A mewn parau neu grŵp o dri.

Ni chaniateir i'r ymgeiswyr drafod yr un thema yn nhasgau 1 a 2.

Caniateir i ymgeiswyr ailsefyll Uned 2, ond rhaid trafod cyd-destun gwahanol yn y ddwy dasg i'r cyd-destunau a drafodwyd yn flaenorol.

Ysgrifennu

Bydd disgwyl i ymgeiswyr ysgrifennu ar destun sy'n deillio o'r dasg sgwrs sefyllfa.

3.2 Amcanion Asesu

Bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos eu gallu i:

AA1 ddefnyddio iaith mewn sefyllfaoedd amrywiol a realistig; ymdrin ag ystod o ffurfiau cyfathrebu llafar ac ymateb i symbyliadau a sefyllfaoedd amrywiol yn unigol ac fel aelod o grŵp gan ddefnyddio'r cywair priodol a rhoi sylw i ansawdd iaith a rhuglder;

AA2 darllen a deall amrywiaeth o ddeunyddiau addas; dethol yr hyn sy'n berthnasol at ddibenion penodol a chyfleu ystyr darnau i eraill; ymateb i'r deunyddiau a ddarllenwyd, gan fynegi barn ar y cynnwys ac ategu eu safbwyntiau trwy gyfeirio at y testun;

AA3 ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth o ffurfiau ac at wahanol ddibenion; dylent arddangos y gallu i ddefnyddio amrywiaeth o eiriau, brawddegau ac ymadroddion yn effeithiol gan ddewis arddull briodol; dylent arddangos gafael gynyddol ar baragraffu, cystrawen, sillafu ac atalnodi.

Rhoddir y pwysiadau canlynol i'r amcanion asesu yng nghydrannau'r arholiad:

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Arholiad Llafar	**20**	**5**		**25**
Papur Ysgrifenedig		**25**	**25**	**50**
Asesiad dan Reolaeth	**20**		**5**	**25**
Cyfanswm y Pwysiad	**40%**	**30%**	**30%**	**100%**

3.3 Ansawdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig

Yn y cydrannau hynny lle y mae gofyn ysgrifennu'n estynedig asesir yr ymgeiswyr ar ansawdd eu cyfrathrebu ysgrifenedig fel rhan o asesiad cyffredinol y gydran honno.

Mae cynlluniau marcio'r cydrannau hyn yn cynnwys y meini prawf penodol canlynol ar gyfer asesu cyfathrebu ysgrifenedig:

- darllenadwyedd y testun; cywirdeb y sillafu, atalnodi a gramadeg; eglurder yr ystyr;
- dethol ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n briodol i bwrpas a chymhlethdod y deunydd;
- trefnu'r wybodaeth yn glir ac yn gydlynol; defnyddio geirfa arbenigol lle y bo hynny'n briodol.

4 DYFARNU, ADRODD AC AILSEFYLL

Bydd cymwysterau TGAU yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa wyth pwynt o A* i G. A* yw'r radd uchaf. Bydd cyflawniad disgyblion nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf bosibl i ennill gradd yn cael ei gofnodi fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Manyleb ag unedau yw hon sy'n caniatáu elfen o asesu fesul cam. Unwaith yn unig y gellir ailsefyll unedau (gyda'r canlyniad gorau'n cyfrif) cyn agregu ar gyfer y dyfarniad pwnc.

Mae gan ganlyniadau am uned hyd oes a gyfyngir gan hyd oes y fanyleb yn unig. Gall ymgeisydd ailsefyll y cymhwyster llawn fwy nag unwaith.

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) gyda'r cyfatebiaethau graddau canlynol:

Gradd	**Uchaf**	**A***	**A**	**B**	**C**	**D**	**E**	**F**	**G**
Uned 1	50	45	40	35	30	25	20	15	10
Uned 2	50	45	40	35	30	25	20	15	10
Uned 3	50	45	40	35	30	25	20	15	10
Uned 4	50	45	40	35	30	25	20	15	10
Dyfarniad Pwnc	200	180	160	140	120	100	80	60	40

5 GWEINYDDU'R ASESIAD DAN REOLAETH

Disgwylir i ymgeiswyr dreulio 18 awr yn paratoi ar gyfer yr asesiadau. Nid yw hyn yn cynnwys amser addysgu a dysgu. Gall ymgeiswyr ddefnyddio ffynonellau amrywiol megis llyfrau testun, geiriaduron, papurau newydd, cyfeirlyfrau ac adnoddau TG wrth baratoi. Cyn ymgymryd â'r tasgau, dylai'r athro/athrawes drafod gyda'r ymgeiswyr a chynnig cyngor ar sut i wneud gwaith ymchwil a'r iaith y dylid ei defnyddio.

Diffinir rheoliadau Asesiadau Dan Reolaeth ar gyfer y tair rhan o'r asesiad fel:

- **Gosod y dasg**
- **Gwneud y dasg**
- **Marcio'r dasg**

Ar gyfer pob proses mae'r awdurdodau rheoleiddio wedi pennu lefelau rheolaeth er mwyn sicrhau bod yr asesiadau yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Mae'r Asesiad Dan Reolaeth yn ddi-haen.

Llafaredd

Gosod y dasg
Rheolaeth ar lefel ganolig.

Gosodir y dasg ar lefel ganolig er mwyn rhoi rhyddid a hyblygrwydd i athrawon greu tasgau addas a fydd o ddiddordeb i'r ymgeiswyr. Bydd CBAC yn darparu banc o dasgau enghreifftiol (gweler llyfryn deunyddiau enghreifftiol am enghreifftiau) a bydd rhain yn cael eu hadnewyddu bob dwy flynedd. Os bydd canolfan yn penderfynu gosod eu tasgau eu hunain neu'n addasu o'r banc o dasgau enghreifftiol, bydd rhaid eu hadnewyddu bob dwy flynedd a'u hanfon at CBAC cyn eu defnyddio.

Gwneud y dasg
Rheolaeth ar lefel ganolig.

Gweler llyfryn deunyddiau enghreifftiol am enghreifftiau.

Tasg 1
Dylai'r cyflwyniad unigol ddangos tystiolaeth o waith ymchwil gan yr ymgeiswyr. Gall yr ymgeiswyr ddefnyddio nodiadau byr (dim mwy na 30 gair ar ffurf pwyntiau bwled). Dylai'r athro/athrawes gadw'r pwyntiau bwled wedi'r cyflwyniad.

Gellir defnyddio cyfarpar megis *Powerpoint* wrth wneud y cyflwyniad. Ond ni chaniateir dim mwy na 30 gair ar ffurf pwyntiau bwled o fewn y cyflwyniad yn ei gyfanrwydd.

Hyd y dasg: 2 – 5 munud

Tasg 2
Dylai'r athrawon roi'r dasg Sgwrs Sefyllfa i'r ymgeiswyr bedair wythnos cyn y prawf. Yn ystod y cyfnod cyn y prawf gall yr athro/athrawes drafod a chynnig cyngor i'r ymgeiswyr. Caniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio nodiadau byr (dim mwy na 30 gair ar ffurf pwyntiau bwled) wrth wneud y prawf ac mae'n rhaid cyflwyno'r pwyntiau bwled i'r athro/athrawes ar ddiwedd y prawf.

Hyd y dasg:
Gwaith pâr: 4 – 7 munud
Gwaith grŵp: 6 – 10 munud

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron wrth wneud y cyflwyniad unigol a'r sgwrs sefyllfa.

Marcio'r dasg
Rheolaeth ar lefel ganolig.

Bydd yr athrawon yn marcio'r tasgau llafar yn unol â'r cynlluniau marcio yn y deunyddiau enghreifftiol.

Wrth asesu'r tasgau llafar dylid sicrhau bod hanner y marciau yn cael eu dyfarnu am ansawdd iaith a mynegiant a'r hanner arall am gynnwys. Wrth asesu iaith a mynegiant, rhoddir pwyslais ar gywirdeb ieithyddol a restrir yn yr Atodiad Iaith ar dudalen 22 y fanyleb hon.

Gofynnir i athrawon gofnodi'r marc am ansawdd iaith a mynegiant a'r marc am y cynnwys (yn ogystal â'r marc terfynol) wrth gyflwyno samplau i bwrpas safoni.

Rhaid wrth safoni mewnol trylwyr. Rhaid i ganolfannau safoni asesiadau ar draws gwahanol athrawon a grwpiau addysgu.

Dylid recordio'r ymgeiswyr ac anfon sampl i CBAC ym mis Mai ar gyfer safoni. (Bydd y sampl yn dibynnu ar y niferoedd a disgwylir i athrawon ddilyn canllawiau CBAC ar gyfer bob pwnc). Wrth gyflwyno'r sampl rhaid cyflwyno'r nodiadau byr a wnaed ar ffurf pwyntiau bwled. Os defnyddir *Powerpoint* bydd rhaid anfon y cyflwyniad i CBAC.

Rhoddir cyfarwyddyd pellach i athrawon neu ganolfannau unigol pan na fydd safonwr yn hapus bod canolfannau wedi cwrdd â gofynion CBAC. Lle y cyfyd problem sylweddol, bydd CBAC yn cymeradwyo recordio sampl pellach a/neu'n trefnu bod arholwr allanol yn ymweld â chanolfan i asesu'r ymgeiswyr. Lle bo angen hynny, gellir trefnu bod monitro yn digwydd o drefniadau'r ganolfan ar gyfer marcio a safoni gyhyd ag y tybir sydd yn angenrheidiol.

Ysgrifennu

Gosod y dasg
Rheolaeth ar lefel ganolig.

Bydd rhaid i'r ymgeiswyr 1 darn o waith ysgrifennu yn seiliedig ar y gwaith a wnaed ar gyfer y sgwrs sefyllfa.

Hyd y dasg: Rhwng 100 – 250 o eiriau

Gosodir y dasg ar lefel ganolig er mwyn rhoi rhyddid a hyblygrwydd i athrawon greu tasgau addas a fydd o ddiddordeb i'r ymgeiswyr. Bydd CBAC yn darparu banc o dasgau enghreifftiol (gweler llyfryn deunyddiau enghreifftiol am enghreifftiau) a bydd rhain yn cael eu hadnewyddu bob dwy flynedd. Os bydd canolfan yn penderfynu gosod eu tasgau eu hunain neu'n addasu o'r banc o dasgau enghreifftiol, bydd rhaid eu hadnewyddu bob dwy flynedd a'u hanfon at CBAC cyn eu defnyddio.

Gwneud y dasg
Rheolaeth ar lefel uchel.

Gweler llyfryn deunyddiau enghreifftiol am enghreifftiau.

Dylai'r athrawon roi'r dasg i'r ymgeiswyr bedair wythnos cyn y prawf, yr un pryd â'r sgwrs sefyllfa. Yn ystod y cyfnod cyn y prawf gall yr athro/athrawes drafod a chynnig cyngor i'r ymgeiswyr.

Bydd rhyddid gan ymgeisydd i ddefnyddio geiriaduron neu ddeunydd pwrpasol e.e pwyntiau bwled sy'n cynnwys ystadegau, ffeithiau, enghreifftiau a dyfyniadau perthnasol (dim mwy na 40 gair) ar gyfer y dasg ysgrifennu. Dylid anfon y deunydd pwrpasol gyda'r gwaith ysgrifennu i CBAC.

Gall yr ymgeiswyr gwblhau'r gwaith drwy ddefnyddio TG ond mae'n rhaid i'r athrawon sicrhau na fydd mynediad gan yr ymgeiswyr i wirwyr sillafu.

Ni chaiff ymgeiswyr ymgynghori â'i gilydd.

Caniateir **1 awr** i gyflawni pob tasg. Gall ymgeiswyr brawf-ddarllen a gwirio eu gwaith ysgrifenedig cyn ei gyflwyno ar ddiwedd y cyfnod prawf ond ni chaiff athrawon farcio'r gwaith ar unrhyw gyfrif. Ni ddylid ailddrafftio'r gwaith o'r newydd nac ail ysgrifennu'r dasg o'r newydd.

Caniateir mwy o amser i ymgeiswyr a chanddynt anghenion arbennig.

Ni ddylid ail ddrafftio'r gwaith ar unrhyw gyfrif ac ni ddylai'r ymgeiswyr ail ysgrifennu'r dasg.

Dylid osgoi gosod yr un tasgau i ymgeiswyr dros yr holl ystod gallu onid ydynt yn addas ar eu cyfer. Gorau oll os gellir gosod tasgau fesul grŵp neu fesul unigolyn.

Marcio'r dasg
Rheolaeth ar lefel ganolig.

Bydd yr athrawon yn marcio'r dasg ysgrifennu yn unol â'r cynlluniau marcio yn y deunyddiau enghreifftiol. Wrth asesu'r dasg ysgrifennu dylid sicrhau bod hanner y marciau yn cael eu dyfarnu am ansawdd iaith a mynegiant a'r hanner arall am gynnwys.

Wrth asesu iaith a mynegiant, rhoddir pwyslais ar gywirdeb ieithyddol a restrir yn yr Atodiad Iaith ar dudalen 24 y fanyleb hon.

Gofynnir i athrawon gofnodi'r marc am ansawdd iaith a mynegiant a'r marc am y cynnwys (yn ogystal â'r marc terfynol) wrth gyflwyno samplau i bwrpas safoni.

Rhaid wrth safoni mewnol trylwyr. Rhaid i ganolfannau safoni asesiadau ar draws gwahanol athrawon a grwpiau addysgu.

Dylid anfon sampl i CBAC ym mis Mai ar gyfer safoni. (Bydd y sampl yn dibynnu ar y niferoedd a disgwylir i athrawon ddilyn canllawiau CBAC ar gyfer bob pwnc). Rhaid anfon unrhyw ddeunydd pwrpasol a ddefnyddiwyd gan yr ymgeiswyr yn ystod y dasg at y safonwr.

Rhoddir cyfarwyddyd pellach i athrawon neu ganolfannau unigol pan na fydd safonwr yn hapus bod canolfannau wedi cwrdd â gofynion CBAC. Lle y cyfyd problem sylweddol, bydd CBAC yn gofyn am sampl.

Dilysu'r Asesiadau Dan Reolaeth

Mae gofyn i ymgeiswyr lofnodi mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith a gyflwynwyd ac mae gofyn i athrawon/aseswyr gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd o dan sylw'n unig yw'r gwaith a asesir ac iddo gael ei wneud o dan yr amodau gofynnol. Bydd CBAC yn darparu copi o'r ffurflen ddilysu, sy'n rhan o'r daflen glawr ar gyfer gwaith bob ymgeisydd. Mae'n bwysig nodi bod gofyn i **bob** ymgeisydd lofnodi'r ffurflen hon, ac nid yn unig y rhai y mae eu gwaith yn rhan o'r sampl a gyflwynir i'r safonwr. Nid oes angen adrodd i CBAC am gamymddygiad a ddarganfuwyd cyn i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu ond rhaid ymdrin ag ef yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan.

Cyn i unrhyw waith tuag at yr Asesiad dan Reolaeth gael ei wneud, dylid tynnu sylw'r ymgeiswyr at yr Hysbysiad i Ymgeiswyr perthnasol gan y CGC. Ceir hwn ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk) ac mae wedi'i gynnwys yn y *Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Gwaith Cwrs/Portffolio*. Rhoddir arweiniad manylach ar atal llên-ladrad yn *Llên-ladrad mewn Arholiadau; Arweiniad i Athrawon/Aseswyr* sydd hefyd ar wefan y CGC.

6 DISGRIFIADAU O'R GRADDAU

Darperir disgrifiadau o'r graddau er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae'r ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau hyn mewn perthynas â'r cynnwys a bennwyd gan y fanyleb; ni fwriadwyd hwy i ddiffinio'r cynnwys hwnnw. Bydd y radd a ddyfernir yn dibynnu'n ymarferol i ba raddau y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gellir cydbwyso diffygion mewn rhai agweddau ar yr asesiad gan well perfformiadau mewn eraill.

Gradd F
Bydd disgwyl i ymgeiswyr arddangos dealltwriaeth o symbyliadau clyweledol mewn sefyllfaoedd cyfarwydd; dechrau cyfrannu mwy nag un frawddeg ar y tro wrth siarad neu sgwrsio; cynnig rhai rhesymau syml i ategu eu cyfraniadau; siarad yn ddealladwy gan ddefnyddio peth amrywiaeth o iaith.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr arddangos dealltwriaeth o lif cyffredinol testunau addas; ymateb yn syml i ddeunydd a ddarllenwyd drwy godi gwybodaeth i bwrpas penodol.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr gyfleu profiadau cyfarwydd yn syml; cyfleu gwybodaeth ffeithiol yn syml; defnyddio amrywiaeth o eirfa, ymadroddion a brawddegau syml.

Gradd C
Bydd disgwyl i ymgeiswyr arddangos dealltwriaeth o ystod o iaith lafar, gan gynnwys brawddegau syml a chymhleth mewn amrywiaeth o gyd-destunau drwy ymateb i symbyliadau clyweledol; sgwrsio a thrafod mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a mynegi eu profiadau gyda pheth manylder, mynegi eu safbwyntiau a defnyddio enghreifftiau neu dystiolaeth i ategu'r safbwyntiau hyn; siarad yn rhwydd gan ddefnyddio amrywiaeth cynyddol o enghreifftiau a phatrymau brawddegol ac arddangos ymwybyddiaeth o gywirdeb ieithyddol.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddarllen a deall detholiad o ddeunydd addas; ymateb i ddeunydd amrywiol gan ategu eu eglurhadau drwy gyfeirio at y testun; dewis a defnyddio gwybodaeth berthnasol o sawl ffynhonnell er mwyn cyflawni tasgau penodol.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr gyfleu profiadau a digwyddiadau cyfarwydd yn fanwl gan gynhyrchu gwaith eglur a threfnus; cyfleu gwybodaeth ffeithiol yn fanwl, er mwyn mynegi barn a chefnogi eu safbwyntiau â rhesymau; dewis geirfa a phatrymau brawddegol a pherthnasol ar gyfer amrywiol bwrpasau ac arddangos peth ymwybyddiaeth o gywirdeb.

Gradd A
Bydd disgwyl i ymgeiswyr arddangos dealltwriaeth gynyddol o'r iaith lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol drwy grynhoi'r prif syniadau ac ymateb i symbyliadau clyweledol; cyflwyno gwybodaeth, trafod safbwyntiau, mynegi barn, manylu ar y rhesymau ac ymateb i syniadau eraill; siarad yn rhwydd, yn hyderus ac yn gywir ar y cyfan; defnyddio amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol ac arddangos ymwybyddiaeth o'r angen i amrywio'r mynegiant yn ôl y pwrpas a'r gynulleidfa.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddarllen a deall amrywiaeth eang o ddeunydd addas, gan gynnwys rhai darnau mwy cymhleth; ymateb i ddeunydd heriol gan ategu eu sylwadau drwy gyfeirio at y testun; defnyddio'u sgiliau darllen i ddethol a defnyddio gwybodaeth i gyflawni amrywiaeth o dasgau ar dopigau o fewn eu profiadau.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr ysgrifennu amrywiaeth o ddarnau personol a dychmygus yn effeithiol gan gynhyrchu gwaith eglur a threfnus; cyfleu gwybodaeth a mynegi barn ar faterion sy'n berthnasol a chefnogi eu safbwyntiau â rhesymau ac enghreifftiau; dewis geirfa a phatrymau brawddegol addas gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o gywirdeb a chywair iaith.

7 Y CWRICWLWM EHANGACH

Sgiliau Allweddol

Mae'r Sgiliau Allweddol yn annatod i'r astudiaeth o'r TGAU Cymraeg Ail Iaith a gellir eu hasesu trwy gynnwys y cwrs a'r cynllun asesu perthynol yn ôl y diffiniad yn y fanyleb. Gellir datblygu'r sgiliau allweddol canlynol trwy'r fanyleb hon ar lefelau 1 a 2:

- Cyfathrebu
- Datrys Problemau
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Gweithio gydag Eraill
- Gwella Eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun

Darperir cyfleoedd i olrhain datblygiad y sgiliau hyn yn erbyn y gofynion tystiolaeth Sgiliau Allweddol yn yr 'Enghreifftio Sgiliau Allweddol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith', sydd ar gael ar wefan CBAC.

Cyfleoedd i ddefnyddio technoleg

Mae'r fanyleb TGAU mewn Cymraeg Ail Iaith yn cynnig cyfleoedd i ymgeiswyr ddefnyddio technoleg wrth gyflawni gwaith a chywain gwybodaeth.

Materion Ysbrydol, Moesol, Moesegol, Cymdeithasol a Diwylliannol

Mae TGAU mewn Cymraeg Ail Iaith yn ei hanfod yn gwrs sydd yn mynnu bod ymgeiswyr yn ystyried materion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol wrth ddarllen, trafod ar lafar ac ysgrifennu.

Dinasyddiaeth

Mae'r fanyleb TGAU mewn Cymraeg Ail Iaith yn cynnig cyfleoedd i ymgeiswyr ddatblygu sgiliau cyfathrebu sy'n eu galluogi i fynegi a datblygu eu safbwynt yn ysgrifenedig ac ar lafar, gan eu hannog i ystyried safbwyntiau eraill yn feirniadol ac yn adeiladol. Mae'r gallu hwn i ddod i benderfyniad deallus, ar ôl ystyried, yn sgìl hanfodol wrth ddatblygu dinasyddiaeth unigol. Mae dinasyddiaeth yn ymwneud â datblygu cyfrifoldeb cymdeithasol a moesol, cymryd rhan yng ngweithgareddau'r gymuned a datblygu llythrennedd wleidyddol. Mae Cymraeg Ail Iaith yn gofyn i ymgeiswyr ystyried elfennau o ddinasyddiaeth trwy ymdrin yn feirniadol a chreadigol â themâu cymdeithasol, er enghraifft trafod yr amgylchedd a chyfleoedd cyfartal. Anogir ymgeiswyr i ddangos cyfrifoldeb personol a chyfrifoldeb fel grŵp o ran eu hagweddau atynt eu hunain a thuag at eraill.

Bydd yr arholiad llafar yn cynnwys gwaith grŵp a gofynnir i ymgeiswyr fynegi barn ar themâu cymdeithasol. Yn ogystal, ceir cyfleoedd i ymgeiswyr ymateb i themâu cymdeithasol wrth baratoi ar gyfer arholiad ysgrifenedig.

Materion Amgylcheddol

Mae TGAU mewn Cymraeg Ail Iaith yn cynnig cyfleoedd i ymgeiswyr ystyried materion amgylcheddol wrth ddarllen, trafod ar lafar ac ysgrifennu.

Ystyriaeth Iechyd a Diogelwch

Ceir cyfleoedd i drafod iechyd a diogelwch tra'n ymwneud â'r cyd-destun 'Gwaith elusennol/rhan-amser'.

Y Dimensiwn Ewropeaidd

Mae'r fanyleb TGAU mewn Cymraeg Ail Iaith, trwy gyfrwng y cyd-destunau a gyflwynir fel pynciau i'w haddysgu, yn cyflwyno rhaglen waith sydd yn cynnig cyfleoedd i ehangu ymwybyddiaeth yr ymgeiswyr o bwysigrwydd y Gymraeg, iaith fyw hynaf cyfandir Ewrop, yn y Gymru gyfoes ac yn nhraddodiad llenyddol Ewrop.

8 ATODIAD IAITH

Haen Sylfaenol

Berfau

Pob person o'r ffurfiau cadarnhaol, negyddol a gofynnol yn yr amser:

- Presennol (rydw i)
- Perffaith (rydw i wedi)
- Perffaith parhaol (rydw i wedi bod)
- Amherffaith (roeddwn i)
- Dyfodol (bydda i)
- Gorffennol cryno: berfau rheolaidd (prynais i) ac afreolaidd – (mynd, dod, cael, gwneud)
- Amodol – person cyntaf ac ail berson unigol a lluosog (hoffwn i, baset ti)

Gorchmynnol: ail berson unigol a lluosog, adnabod y terfyniadau –a/–wch (cerdda, cerddwch)

Y ffurfiau gofynnol mwyaf cyffredin Oes? Oedd? Ydy? Fydd?

Cwestiynau

- Ble?
- Pam?
- Pryd?
- Pwy?
- Beth?
- Pa?
- Sut?
- Sawl/Faint o?
- Faint o'r gloch?
- Ga i?

Rhagenwau (pob person)

- Rhagenwau syml (fi, ti)
- Rhagenwau perthynol (fy, dy)

Ansoddeiriau

- Safle arferol yr ansoddair
- Goleddfu ansoddeiriau (iawn, rhy)

Y fannod

y/yr/'r

Cysyllteiriau
a/ac, neu, ond, achos

Arddodiaid – ymwybyddiaeth o rediad arddodiaid

- Am
- Ar
- At
- Dan
- Yn
- I
- O
- Wrth
- Drwy
- Gyda
- Dros
- Heb
- Gan

Enwau

- Ffurfiau unigol a lluosog (merch, merched; bachgen, bechgyn)
- Ffurfiau unigol ar ôl rhifolion (saith merch, tri bachgen)

Amser a dyddiadau

- Amser
- Dyddiau'r wythnos
- Misoedd y flwyddyn
- Y tymhorau

Rhifolion a threfnolion

- Dull degol (tri deg plentyn)
- Rhifolion traddodiadol ar gyfer amser (11-25)

Adferfau

- Adferfau amser mwyaf cyffredin (e.e. ddoe, heddiw, yfory)

Cyfarchion

Strwythurau idiomatig

- gan/gyda e.e. Mae'n ddrwg gen i/Mae'n well gyda hi
- i e.e. Mae'n rhaid i fi
- ar e.e. Mae eisiau dillad newydd arno fe

Treigladau

Ymwybyddiaeth o ffurfiau sydd wedi eu treiglo.

Haen Uwch

Y strwythurau gramadegol a restrwyd ar gyfer yr Haen Sylfaenol yn ogystal â'r canlynol.

Berfau

Pob person o ffurfiau cadarnhaol, gofynnol a negyddol:

- yr amodol (fasen nhw'n talu?),
- y gorberffaith (roeddwn i wedi)
- y gorberffaith parhaol (roeddwn i wedi bod)
- Yr arferiadol (Bydda i'n ... fel arfer/weithiau/yn rheolaidd)

Ffurf gadarnhaol, pob person

- yr amherffaith dibynnol (pe baswn i, pe baset ti a.y.y.b.)

Arddodiaid yn dilyn berfenwau (edrych ar, siarad â a.y.y.b.)

Cwestiynau

- Ers pryd?
- P'un?
- Pa rai?
- Pa mor?
- Pwy biau?
- I ble?
- O ble?

Rhagenwau

- Rhagenwau dangosol (yma, yna, acw)

Ansoddeiriau

- Treiglo ar ôl enw benywaidd unigol
- Cymharu ansoddeiriau ond gan ddefnyddio 'mor' yn unig yn y radd gyfartal (mor ddiddorol, mwy diddorol, mwyaf diddorol)

Arddodiaid

- Rhedeg yr arddodiaid a restrir ar gyfer yr Haen Sylfaenol
- Treigladau yn dilyn arddodiaid

Enwau

- Cenedl enwau

Rhifolion a threfnolion

- Rhifolion gwrywaidd a benywaidd (tair merch, pedwar bachgen)
- Rhifolion + blwyddyn (dwy flynedd, saith mlwydd oed)
- Rhifolion traddodiadol ar gyfer arian ac oed (11-21)
- Trefnolion 1-10

Priod-ddulliau aml eu defnydd

mae'n debyg, erbyn hyn, gorau po gyntaf, o dro i dro ac ati.

Cymalau

- cymal enwol gyda ffurfiau bod (fy mod i, dy fod di)

Treigladau

Gwybodaeth o'r treigladau.